Pa ddylanwad gafodd teulu'r Penrhyn ar y gymuned leol?

Gan Erin, Bl.6

Benjamin Wyatt - 1745 - 1818

Ym mynwent Llandygai mae pyramid er cof am y teulu Wyatt, a oedd wedi gwasanaethu Stad y Penrhyn ers y ddeunawfed ganrif. Mae Benjamin a'i wraig Sarah wedi eu claddu yno.

Roeddent yn byw yn Lime Grove, Bangor.

Roedd Benjamin Wyatt yn bensaer gwych ac yn gyfrifol am rai o adeiladau cynnar Bangor.

Cynlluniodd Ysbyty Môn ac Arfon ym Mhenlon, Bangor mewn lleoliad a oedd yn weladwy i drigolion Ynys Môn. Mae'r adeilad bellach yn Filfeddygfa.

Adeilad pwysig iawn arall oedd Gwesty'r Penrhyn Arms, a oedd yn arosfan allweddol er mwyn ailbedoli ceffylau ac yn cynnig lluniaeth a noddfa i deithwyr blinedig.

Agorwyd y Gwesty ym 1799 a bu'n gwasanaethu'r ddinas am 85 o flynyddoedd.

Arallgyfeirwyd yr adeilad yn 1884, a dyma oedd cartref cyntaf Coleg Prifysgol, Bangor, lle mynychodd llawer o fyfyrwyr enwog, gan gynnwys Dr Kate Roberts.

Dyma'r bwthyn Incline Cottage, a gynlluniodd Benjamin Wyatt, ar derfyn Inclen y Marchogion. Saif yr adeilad mewn cae gyferbyn a Stad Maesgeirchen heddiw.

Roedd y trên yn teithio ar hyd y cledrau cul a rhwng dau ben yr adeilad. Cyfunwyd y tŷ gyda dirwyiad y diwydiant llechi.

Mae'r ail lun wedi ei dynnu ym 1990 a gwelwn newid i ran ganol yr adeilad.